# CANLLAW I ARIAN Y LOTERI GENEDLAETHOL

THE NATIONAL LOTTERY®






# CROESO I'N CANLLAW I ARIAN Y LOTERI GENEDLAETHOL

**Fel Cadeirydd Fforwm y Loteri Genedlaethol, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r canllaw hwn i arian y Loteri Genedlaethol. Am dri degawd, mae'r Loteri Genedlaethol wedi bod yn rym anhygoel er daioni led led y Deyrnas Unedig, gan ddarparu dros £49 biliwn mewn nawdd i gefnogi dros 690,000 o brosiectau led led y wlad.**

Mae'r cyflawniad rhyfeddol hwn yn ymestyn ar draws amrywiaeth eang o sectorau - o'r celfyddydau a threftadaeth i fentrau cymunedol, rhaglenni chwaraeon, a thu hwnt. Y tu ôl i bob un o'r prosiectau hyn mae timau o arbenigwyr ymroddedig sy'n sicrhau bod arian y Loteri Genedlaethol yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf ac yn gallu ei ddefnyddio i'r effaith fwyaf.

Sefydlwyd y Loteri Genedlaethol yn 1994, ac mae wedi dod yn drysor cenedlaethol gwirioneddol, un sy'n cyffwrdd â bywydau ym mhob cwr o'r DU. Bob wythnos, mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi swm syfrdanol o £30 miliwn ar gyfer achosion da. Mae'r haelioni parhaus hwn yn helpu i drawsnewid cymunedau, cefnogi gwaith elusennol hanfodol, diogelu ein treftadaeth, meithrin doniau chwaraeon, a dod â gweledigaethau creadigol yn fyw.

O fewn y tudalennau sy'n dilyn, fe welwch wybodaeth fanwl am bob un o'n cyrff ariannu arbenigol a'r mathau o brosiectau y maent yn eu cefnogi. P'un a ydych yn edrych i wneud cais am arian neu'n eisiau dysgu mwy yn unig am effaith anhygoel y Loteri Genedlaethol, rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld y canllaw hwn yn llawn gwybodaeth ac ysbrydoliaeth.

Mae'r Loteri Genedlaethol yn fwy na dim ond gêm - mae'n gatalydd grymus ar gyfer newid cadarnhaol, gan helpu i adeiladu cymdeithas gryfach a mwy bywiog i ni i gyd. Wrth i ni agosáu at ein pen-blwydd yn 30 mlwydd oed, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ariannu syniadau rhyfeddol sy'n cyfoethogi bywydau ac yn cryfhau cymunedau led led y DU.

Diolch am eich diddordeb yn arian y Loteri Genedlaethol. Gyda'n gilydd, rydym yn newid bywydau bob dydd.



**Darren Henley,**
*Cadeirydd Fforwm y Loteri Genedlaethol*



# RYDYM YN ARIANNU POB MATH O GYFLEOEDD CYFFROUS

## Y LOTERI GENEDLAETHOL

4 | Tri Degawd o Drawsnewid Cymunedau led led y Deyrnas Unedig

## CYMUNEDOL

7 | Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

## TREFTADAETH

9 | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

## Y CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT

11 | Sefydliad Ffilm Prydain (BFI)
12 | Arts Council England
13 | Arts Council of Northern Ireland
14 | Cyngor Celfyddydau Cymru
15 | Creative Scotland

## CHWARAEON

17 | UK Sport
18 | Sport England
19 | Sport Northern Ireland
20 | Chwaraeon Cymru
21 | **sport**scotland

## YR ENILLWYR GO IAWN

22 | Cyfarfod ag Enillwyr Go Iawn y Loteri Genedlaethol: Gwneud i Bethau Anhygoel Ddigwydd





*Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r tîm Cysylltiadau Cyhoeddus yn Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol (NLPU). E-bost: public.affairs@lotterygoodcauses.org.uk*

# Y LOTERI GENEDLAETHOL

## TRI DEGAWD O DRAWSNEWID CYMUNEDAU LED LED Y DEYRNAS UNEDIG

**Wrth i ni nodi 30 mlynedd ers lansio'r Loteri Genedlaethol, mae'n hanfodol cydnabod ei chyfraniad arwyddocaol i wead cymdeithasol ac economaidd pob cenedl o fewn y DU. Mae'r sefydliad hwn wedi dod yn rym hanfodol ar gyfer newid cadarnhaol ar draws Lloegr, yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon.**

### Buddsoddiad Digyffelyb mewn Cymunedau Lleol

- £49 biliwn wedi'i godi ar gyfer prosiectau sy'n fuddiol i etholwyr ar draws pob un o'r pedair cenedl
- Dros 690,000 o fentrau wedi'u cefnogi, gan gyrraedd pob cwr o'r DU
- £30 miliwn yn cael ei gynhyrchu'n wythnosol, sy'n cyfateb i £4 miliwn y dydd ar gyfer achosion da
- 70% o'r prosiectau a ariennir wedi derbyn £10,000 neu lai, gan sicrhau effaith eang ar lefel llawr gwlad ym mhob rhanbarth

### Effaith Drawsnewidiol ar Draws Sectorau

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi bod yn allweddol wrth gefnogi amrywiaeth eang o fentrau, o ddiogelu ein treftadaeth genedlaethol amrywiol i gryfhau rhaglenni cymunedol ac ariannu ein hathletwyr Olympaidd a Phara Olympaidd. Gyda grantiau wedi'u dosbarthu ar draws pob ardal cod post, mae'n debygol iawn bod pob etholaeth, o Ucheldiroedd yr Alban i Gymru wledig, o gymunedau Gogledd Iwerddon i ddinasoedd Lloegr, wedi gweld manteision pendant o arian y Loteri Genedlaethol.

### Ysgogiad Economaidd a Chreu Swyddi

- £92 biliwn wedi'i wobrwyo mewn arian gwobr, gan ysgogi economïau lleol ar draws y DU
- Dros 7,000 o filiwnyddion wedi'u creu ers 1994, gan arwain at fuddsoddiad lluosog pellach yn lleol
- 382 o filiwnyddion newydd yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, wedi'u gwasgaru ar draws pob cenedl

### Menter sydd Wirioneddol ar draws y DU

- 28 miliwn o chwaraewyr rheolaidd o gefndiroedd demograffig amrywiol ar draws pob un o'r pedair cenedl
- 98% o gydnabyddiaeth brand, gan ddangos ymgysylltiad cyhoeddus eang led led y DU
- Mae cyfaint gwerthiant yn rhagori ar frandiau mawr y DU, gan danlinellu ei arwyddocâd economaidd ym mhob rhanbarth



# Y LOTERI GENEDLAETHOL

### Cefnogi Busnesau Bach a'r Stryd Fawr

- 40,000+ o bartneriaid adwerthu ar draws y DU, gyda llawer ohonynt yn fusnesau bach, annibynnol
- 94% o oedolion y DU â mynediad cyfleus i derfynnell y Loteri Genedlaethol, waeth beth fo'r genedl
- £7.9 biliwn wedi'i ennill gan bartneriaid adwerthu hyd yma, gan gyfartalu fel £6,000 y siop y llynedd, gan gefnogi economïau lleol ym mhob un o'r pedair cenedl

### Cyfraniad Sylweddol at Gyllid

- £20.9 biliwn mewn Treth y Loteri wedi cefnogi gwariant cyhoeddus yn uniongyrchol ers 1994, gan fod o fudd i bob un o'r pedair cenedl led led y DU

### Model o Dyfiant Cyfrifol

Mae strategaeth y Loteri Genedlaethol o "lawer o bobl yn chwarae ychydig" wedi creu'r 7fed loteri fwyaf yn y byd yn ôl gwerthiant, tra'n cynnal safle cyfrifol fel y 66ain mewn gwariant y pen. Mae'r dull hwn yn sicrhau cyfranogiad eang ac yn uchafu'r effaith gadarnhaol ar draws pob cenedl a rhanbarth yn y DU.

Wrth i ni fyfyrio ar 30 mlynedd o'r Loteri Genedlaethol, mae ei rôl wrth drawsnewid cymunedau, tanio economïau lleol, a chreu cyfleoedd i etholwyr ar draws pob un o'r pedair cenedl yn eglur. Mae'n dyst i bartneriaeth cyhoeddus-preifat lwyddiannus, gan ddarparu buddion pendant i gymunedau led led Lloegr, yr Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddon.



# CYMUNEDOL



# CRONFA GYMUNEDOL Y LOTERI GENEDLAETHOL

**Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau anhygoel sy'n creu cymunedau mwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, byddwn yn dosbarthu dros £4 biliwn erbyn 2030 i gryfhau cymdeithas a gwella bywydau led led y DU.**

Mae gan y Gronfa bedair cenhadaeth allweddol, sef cefnogi cymunedau i ddod ynghyd, bod yn amgylcheddol gynaliadwy, helpu plant a phobl ifanc i ffynnu, a galluogi pobl i fyw bywydau iachach.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwobrwyo dros hanner biliwn o bunnoedd (£686.3 miliwn) o arian sy'n newid bywydau i gymunedau led led y DU, gan gefnogi dros 13,700 o brosiectau i droi eu syniadau gwych yn realiti.

Mae'n fraint i ni allu gweithio gyda'r grwpiau lleol lleiaf hyd at elusennau cenedlaethol led led y DU, gan alluogi pobl a chymunedau i wireddu eu huchelgeisiau. Ein huchelgais yw buddsoddi fwyaf mewn lleoedd, pobl a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu.

Darganfyddwch fwy am gyfleoedd ariannu ar:
**tnlcommunityfund.org.uk/funding**





# TREFTADAETH



# CRONFA TREFTADAETH Y LOTERI GENEDLAETHOL

THE NATIONAL LOTTERY®

**Fel yr ariannwr mwyaf ar gyfer treftadaeth y DU, ein gweledigaeth yw i dreftadaeth gael ei gwerthfawrogi, ei chadw a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn credu mewn grym treftadaeth i ennyn dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i feithrin balchder yn ein lle a'n cysylltiad â'r gorffennol.**





Rydym yn gweld treftadaeth fel rhywbeth eang a chynhwysol, sy'n addasu i ddefnydd a heriau cyfoes ac yn y dyfodol. O adeiladau hanesyddol, ein hetifeddiaeth ddiwydiannol a'r amgylchedd naturiol, i gasgliadau, traddodiadau, storïau a llawer mwy. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo ymlaen i genedlaethau'r dyfodol.

Ers 1994, rydym wedi buddsoddi dros £8.9 biliwn mewn mwy na 48,000 o brosiectau. Dros y 10 mlynedd nesaf, ein nod yw buddsoddi £3.6 biliwn a godwyd ar gyfer achosion da gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gefnogi prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth y DU.

Darganfyddwch fwy amdanom ni ar:
**heritagefund.org.uk**

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

# Y CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT



# SEFYDLIAD FFILM PRYDAIN (BFI)

**Mae'r BFI yn elusen ddiwylliannol ac yn brif gorff y DU ar gyfer ffilm, teledu a delweddau symudol. Rydym yn buddsoddi arian y Loteri Genedlaethol i helpu i warchod diwylliant sgrîn y DU o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau ein treftadaeth ffilm, ysbrydoli ac ariannu'r genhedlaeth nesaf o ddoniau ac aelodau criwiau ffilmio yn y DU, helpu cynulleidfaoedd i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o sinema annibynnol yn y DU ac yn rhyngwladol, a sicrhau bod ffilmiau o'r DU yn cael eu gweld a'u mwynhau led led y byd.**

Dros y 30 mlynedd diwethaf, rydym ni (a'n rhagflaenwyr) wedi buddsoddi arian y Loteri Genedlaethol mewn mwy na 600 o ffilmiau annibynnol yn y DU, sydd wedi denu dros 100 miliwn o dderbyniadau sinema ac wedi ennill dros 500 o wobrau, gan gynnwys Oscars® a BAFTAs. Rhwng 2023-2026 byddwn yn buddsoddi £45 miliwn y flwyddyn o arian y Loteri Genedlaethol i sicrhau bod diwylliant sgrîn yn ganolog i fywydau dinasyddion y DU, gan annog bywiogrwydd parhaus y straeon a adroddwn ar y sgrîn, a chynyddu'r manteision diwylliannol, addysgol, cymdeithasol ac economaidd led led y DU. Ein nod yw adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd yn y DU o fewn y ffilmiau rydym yn eu cefnogi, y cynulleidfaoedd sy'n eu gwylio, a'r gwneuthurwyr ffilmiau, yr actorion a'r criwiau sy'n eu cynhyrchu. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i wneud y DU y lle mwyaf cyffrous a ffyniannus yn greadigol i wneud ffilmiau ar lefel ryngwladol.

Darganfyddwch fwy am gyfleoedd cyllido ar: **bfi.org.uk/get-funding-support**



# ARTS COUNCIL ENGLAND





**Mae Arts Council England yn asiantaeth datblygu genedlaethol ar gyfer creadigrwydd a diwylliant led led Lloegr. Fel y nodwyd yn ein strategaeth 10 mlynedd Let's Create, erbyn 2030 rydym am i Loegr fod yn wlad lle mae creadigrwydd pob un ohonom yn cael ei werthfawrogi ac yn cael y cyfle i ffynnu, a lle mae gan bob un ohonom fynediad at ystod ryfeddol o brofiadau diwylliannol o ansawdd uchel.**

O 2023 i 2026, byddwn yn buddsoddi dros £467 miliwn o arian cyhoeddus gan y Llywodraeth a £250 miliwn tybiedig oddi wrth y Loteri Genedlaethol bob blwyddyn i helpu cefnogi'r sector ac i gyflawni'r weledigaeth hon.

Rydym yn credu y dylai mwy o bobl mewn mwy o leoedd rannu'r llawenydd, yr ysbrydoliaeth, a'r buddion y gall gwell mynediad at weithgareddau creadigol rhagorol a phrofiadau diwylliannol eu cynnig – o'r celfyddydau gweledol i'r theatr, llenyddiaeth i ddawns, cerddoriaeth i arddangosfeydd, a chrefftau i gasgliadau. Mae'r arian hanfodol gan y Loteri Genedlaethol yn gwneud hynny'n bosibl mewn cymunedau ym mhob cwr o'r wlad.

Dysgwch fwy amdanyn ni ar:
**artscouncil.org.uk**

# ARTS COUNCIL OF NORTHERN IRELAND

**Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yn datblygu ac yn hyrwyddo'r celfyddydau. Rydym yn cefnogi pobl a sefydliadau sy'n darparu profiadau creadigol gwych.**

Ers 1995, rydym wedi gwobrwyo dros **9,000** o grantiau ac wedi buddsoddi **£211 miliwn** mewn prosiectau celfyddydol, gan drawsnewid bywydau nifer dirifedi o bobl a chymunedau, diolch i'r Loteri Genedlaethol a'r arian a godwyd ar gyfer achosion da.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â channoedd o artistiaid, sefydliadau celfyddydol, lleoliadau a chymunedau lleol bob blwyddyn, gan gyflawni gweledigaeth ein Strategaeth 10 Mlynedd, Championing The Arts, 2024-34, sef cymdeithas lle gall pawb brofi sector celfyddydol llewyrchus sy'n cael ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol i greadigrwydd, lles a ffyniant cymdeithasol ac economaidd.

Darganfyddwch fwy ar: **artscouncil-ni.org**





# CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

**Ers 1995, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gwobrwyo bron i £400 miliwn i 15,620 o brosiectau, gan gefnogi creadigrwydd ym mhob cwr o'r wlad.**

Mae'r buddsoddiad hwn wedi trawsnewid hen adeiladau yn ofodau diwylliannol bywiog, wedi dod â phobl ynghyd drwy brofiadau a rennir, ac wedi hyrwyddo doniau artistiaid a sefydliadau celfyddydol Cymru.

Mae ein cyllid yn cwmpasu popeth o brosiectau cymunedol mewn neuaddau pentref hyd at wyliau mawr, gan gofleidio llawn ehangder ein diwylliant – o berfformiadau cyfoes i'r Gwerin, ein traddodiadau gwerin hanesyddol. Rydym yn dathlu amrywiaeth ieithoedd, straeon a ffurfiau celf Cymru, gan sicrhau bod y celfyddydau'n cyrraedd pobl o bob cefndir.

Rydym yn archwilio sut y gall creadigrwydd wella iechyd a lles, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan. Yn anad dim, credwn fod gan y celfyddydau'r gallu i gysylltu, ysbrydoli a thrawsnewid cymunedau.

Darganfyddwch ragor yn: **arts.wales**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales





# CREATIVE SCOTLAND

**Mae swm anhygoel o £678 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol wedi'i wobrwyo i sefydliadau'r celfyddydau, sgrîn, creadigol ac unigolion led led yr Alban dros y 28 mlynedd diwethaf.**



Yn ein rôl fel prif asiantaeth datblygu ac ariannu'r Alban, mae Creative Scotland, yn cynnwys Screen Scotland, yn falch o fod yn ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol a grantiau gan Lywodraeth yr Alban i alluogi pobl i wireddu syniadau creadigol, datblygu a chynnal gyrfaoedd gwerth chweil, ac i brofi'r celfyddydau a diwylliant.

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi chwarae rhan enfawr wrth drawsnewid y dirwedd ddiwylliannol yn yr Alban, gan gefnogi ac ysbrydoli gwaith newydd gan greadigolion unigol, lleoliadau sy'n ennill gwobrau a gwyliau adnabyddus. Mae'n parhau i helpu i ddod â chymunedau at ei gilydd ac agor cyfleoedd i bobl o bob cefndir, gan ychwanegu llawenydd a phleser i fywydau pobl.



Dysgwch fwy am gyfleoedd cyllido ar: **creativescotland.com/funding**

# CHWARAEON



# UK SPORT

**Mae UK Sport ar genhadaeth i greu'r ddegawd fwyaf o fomentau chwaraeon rhyfeddol sy'n cyrraedd, uno ac ysbrydoli'r genedl drwy gampau elitaidd.**

Drwy arweinyddiaeth strategol a buddsoddiad ers 1997, mae UK Sport wedi trawsnewid y gymuned chwaraeon Olympaidd a Phara Olympaidd, gan ennill mwy o fedalau nag erioed o'r blaen a helpu i sicrhau bod y DU yn cael ei chydnabod fel arweinydd byd-eang mewn cynnal digwyddiadau chwaraeon o bwys.

Cyn Gemau Olympaidd a Phara Olympaidd Paris 2024, buddsoddodd UK Sport £385 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol a'r Llywodraeth i gefnogi paratoadau athletwyr Prydain, gan eu helpu i gyflwyno perfformiadau ysbrydoledig yn y Gemau a sicrhau casgliad medalau oedd yn torri record ar draws y Gemau Olympaidd a Phara Olympaidd.

At hynny, ers 2012, rydym wedi helpu i sicrhau 130 o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol o bwys i'r DU, gan ddarparu momentau ysbrydoledig i'w mwynhau gan bobl ym mhob cwr o'n gwlad.

Dysgwch fwy amdanom ni ar: **uksport.gov.uk**

**Lluniau o'r chwith i'r dde:**
Llun gan Gary Oakley/Getty Images ar gyfer y Loteri Genedlaethol, Llun gan Michael Steele/Getty Images





# SPORT ENGLAND

**Cenhadaeth Sport England yw buddsoddi mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol i'w gwneud yn rhan arferol o fywyd i bawb yn Lloegr, waeth pwy ydych chi.**





Rydym yn darparu arbenigedd, mewnwelediad, ac arian i helpu pawb i deimlo'n abl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Gall rhwystrau i weithgarwch amrywio o god post person i falans banc neu ryw, yn ogystal ag anghydraddoldebau dwfn sy'n gwneud i bobl deimlo nad yw chwaraeon a gweithgaredd corfforol ar eu cyfer nhw. Nod ein strategaeth Uniting the Movement yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn a chefnogi pobl a chymunedau sydd wedi cael eu hanghofio'n draddodiadol.

Rydym yn buddsoddi hyd at £300 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol a'r llywodraeth bob blwyddyn mewn cynigion chwaraeon lleol, cyfleusterau, a modelau ac ymgyrchoedd arloesol sy'n gyrru cyfranogiad.

Dysgwch fwy amdanom ni ar: **sportengland.org/funding**



# SPORT NORTHERN IRELAND





**Mae Sport Northern Ireland wedi gwobrwyo mwy na £213 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol i dros 3,600 o brosiectau chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon, gan gynrychioli mwy na 70 o wahanol chwaraeon.**

Fel y corff cyhoeddus blaenllaw sy'n datblygu chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn angerddol ynghylch defnyddio grym chwaraeon i newid bywydau. Rydym yn meithrin diwylliant chwaraeon cryf ac ymrwymiad cyffredin i ganlyniadau chwaraeon ystyrlon. Rydym yn cyflawni hyn drwy arian y Loteri Genedlaethol.

Mae datganiad cenhadaeth Sport Northern Ireland yn eglur: erbyn 2025 rydym am i bŵer chwaraeon gael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan bawb.

Dysgwch fwy am gyfleoedd cyllido ar ein gwefan: **sportni.net/funding**

# CHWARAEON CYMRU

**Mae arian y Loteri Genedlaethol yn cefnogi Chwaraeon Cymru i alluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu.**

Gyda grantiau sy'n anelu at gefnogi clybiau i leihau anghydraddoldeb, creu cynaliadwyedd hirdymor a chyflwyno dulliau newydd neu wahanol o weithredu, mae'r Gronfa Cymru Actif a ariennir gan y Loteri Genedlaethol wedi helpu miloedd o glybiau ers ei lansio ym mis Gorffennaf 2020 ac yn parhau i gefnogi clybiau ar lawr gwlad ym mhob cwr o Gymru.

Mae cyllid y Loteri Genedlaethol yn siapio straeon athletwyr elitaidd o Gymru wrth gefnogi eu datblygiad i gynrychioli eu cenedl ar lwyfan y byd.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Chwaraeon Cymru hefyd yn gallu buddsoddi mewn sefydliadau cenedlaethol arloesol megis yr Urdd, StreetGames Cymru a'r Gymdeithas Nofio ar gyfer Pobl Dduon, sy'n enillydd Gwobr y Loteri Genedlaethol.

Dysgwch fwy am gyfleoedd cyllido ar ein gwefan: **sport.wales/grants-and-funding**









# SPORTSCOTLAND




sportscotland
the national agency for sport

**sport**scotland **yw'r asiantaeth chwaraeon genedlaethol yn yr Alban gyda'r weledigaeth o Alban weithgar lle mae pawb yn elwa o chwaraeon. Diolch i gefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae sport**scotland **yn helpu pobl yr Alban i gael y gorau o'r system chwaraeon.**

Ers lansio'r Loteri Genedlaethol, mae **sport**scotland wedi buddsoddi dros £225 miliwn mewn 6,390 o brosiectau chwaraeon cymunedol yn yr Alban; gan ariannu cyfleusterau chwaraeon, creu caeau chwarae a chynyddu cyfleoedd chwaraeon i filiynau o bobl.

Rydym yn dylanwadu, yn hysbysu ac yn buddsoddi yn y sefydliadau a'r bobl sy'n darparu chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Ein nod yw annog pobl i fod yn fwy actif yn amlach.

Mae Alban actif yn un lle mae pobl yn cael eu hannog i gymryd rhan, datblygu a chyflawni mewn chwaraeon, gan ddod yn fwy gweithgar a pharhau i fod yn actif.

Dysgwch fwy amdanom ni ar: **sportscotland.org.uk**






# YR ENILLWYR GO IAWN

## CYFARFOD AG ENILLWYR GO IAWN Y LOTERI GENEDLAETHOL: GWNEUD I BETHAU ANHYGOEL DDIGWYDD

**Roedd yr enillwyr diweddar hyn o 2023 yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol a'u mentrau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol wedi derbyn cydnabyddiaeth am eu hymdrechion sy'n newid y gêm wrth drawsnewid bywydau a gwneud gwahaniaeth parhaol yn eu cymunedau.**



### Bangor Court House, Gogledd Iwerddon (Prosiect Loteri Genedlaethol y Flwyddyn)

Roedd y prosiect £1 miliwn hwn yn Bangor wedi trawsnewid hen lys a oedd wedi cau yn ganolfan ddiwylliannol fywiog. Gyda chefnogaeth Gary Lightbody o Snow Patrol, mae'n enghraifft o sut y gall gweledigaeth gymunedol ac arian y Loteri Genedlaethol ail-ddiffinio tirlun diwylliannol dinas.



### Project SIARC, Cymru (Prosiect y Flwyddyn yng Nghymru)

Mae'r fenter Cymru gyfan hon yn gwarchod bywyd morol, gan ddiogelu 27 rhywogaeth o siarcod a chathod môr. Trwy gyfuno ymchwil ag ymgysylltiad cymunedol, mae'n gosod safonau newydd ar gyfer cadwraeth forol yn fyd-eang.



### Katie Mahon - Bloomin' Buds Theatre Company, Bradford (Enillydd Categori'r Celfyddydau, Diwylliant a Ffilm)

Mae cwmni Katie Mahon yn Bradford yn chwyldroi mynediad at y celfyddydau, gan fynd i'r afael â stigma dosbarth trwy raglen Gymrodoriaeth arloesol. Mae'n ymgysylltu â 200 o bobl bob wythnos, gan fynd i'r afael â materion cymdeithasol a newid y naratif ar gynrychiolaeth y dosbarth gweithiol o fewn y celfyddydau.

# YR ENILLWYR GO IAWN



### Esther Fox - Curating for Change, led led Lloegr (Enillydd y Categori Treftadaeth)

Mae prosiect Esther Fox i Loegr gyfan yn trawsnewid profiadau o amgueddfeydd drwy hyrwyddo lleisiau Pobl Fyddar, anabl, a niwroamrywiol. Mae ei rhaglen yn creu cyfleoedd o fewn y sector treftadaeth, gan osod safon newydd ar gyfer cynhwysiant mewn sefydliadau diwylliannol.



### Tim Holtam - Brighton Table Tennis Club (Enillydd y Categori Chwaraeon)

Mae clwb Tim Holtam a leolir yn Brighton yn ymgysylltu â 1,500 o bobl bob wythnos, gan groesawu ffoaduriaid, unigolion anabl, a chyn-garcharorion. Mae'n arddangos sut y gall chwaraeon dorri rhwystrau cymdeithasol i lawr a chreu cymunedau cryfach, gan ysbrydoli mentrau tebyg led led y wlad.



### Danny Renton - Seawilding, Argyll (Enillydd y Categori Amgylchedd)

Mae prosiect Danny Renton yn Argyll yn arloesi mewn cadwraeth forol ac adfer wystrys brodorol. Mae'n creu swyddi gwyrdd, yn chwyldroi addysg forol, ac yn gosod meincnod ar gyfer adferiad ecolegol dan arweiniad y gymuned.



### Osmond Gordon-Vernon - Life Is What U Make It, Llundain (Enillydd y Categori Arwr Ifanc)

Mae gêm fwrdd arloesol Osmond, a ddatblygwyd yn Llundain, yn mynd i'r afael â throsedd ieuenctid a diwylliant gangiau. Mae ei fenter dan arweiniad pobl ifanc yn cynnig dull ffres o fynd i'r afael â materion cymdeithasol trefol/dinesig, gan ddangos pŵer profiadau cyffredin wrth newid cymunedau.

THE NATIONAL LOTTERY®

LOTTERYGOODCAUSES.ORG.UK

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

BFI

ARTS COUNCIL ENGLAND

arts council of Northern Ireland

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

CREATIVE SCOTLAND

uk sport

SPORT ENGLAND

Sport Northern Ireland

sportwales chwaraeoncymru

sportscotland the national agency for sport